

Dyfnder yn galw ar ddyfnder

“Dywed wrth holl gynulleidfa pobl Israel, ‘Byddwch sanctaidd, oherwydd yr wyf fi, yr Arglwydd eich Duw yn sanctaidd.’” (adn. 2)

Beth am ddarllen Lefiticus 19:1–18 ac yna myfyrio

Nid oes dim ond cynnydd mewn duwioledeb ymhlith y bobl hynny sy'n galw eu hunain yn Gristnogion, sydd am wneud yr Eglwys yn dystiolaeth rymus yn y byd. Mae halen yn puro, ac mae Duw am ddefnyddio ein bywydau ni i ddangos i'r byd bod yna ryddid yn Iesu o gaethiwed i bechod – os bydd iddynt ildio eu bywydau iddo.

Un sylw diddorol mae nifer wedi ei wneud yw bod Cristnogion sydd yn ystyried sancteiddrwydd o ddifrif, yn amharod i weld Cristnogion eraill fel Anglicaniaid, Bedyddwyr, Annibynwyr, Presbyteriaid ac yn y blaen, ac yn fwy parod i weld y muriau hyn yn dymchwel wrth iddynt adnabod cymdeithas Cristnogion gyda'i gilydd. Yn Ioan 17, mae Iesu yn cychwyn ei weddi gyda'r ymadrodd 'Dad Sanctaidd' ac yna yn mynd ymlaen i sôn am undod ei blant. Mae sancteiddrwydd ac undeb yn bethau na ellir eu gwahanu. Tra bod y byd yn meithrin amheuan, mae'r rhai sy'n 'saint' yn sanctaidd, yn medru estyn dwylo ar draws y terfynau arferol.

Er bod yna bobl sydd am lygru'r ffynnon hon, mae'r gwirionedd fod Duw yn ein galw i sancteiddrwydd yn ffynnon sydd raid ei hail-agor. Mae Duw yn codi'r safon sydd angen ei gyrraedd yn uchel iawn, ond mae'n rhoi'r adnoddau inni ei gyrraedd hefyd. Cofiwch – 'sancteiddrwydd, yna llawenydd'. Yn wir, ceisiwch y sancteiddrwydd sydd yn dwyn gorfoledd ac iechyd i'r enaid.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Phil. 1:27–30; 1 Pedr 1:13–17

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ganiatawyd i'r Philipiaid?
2. Sut mae paratoi ein hunain ar gyfer sancteiddrwydd?

Gweddi

Ein Tad yn y nefoedd, diolch bod llawenydd a gorfoledd yn dy nefoedd, yn dy sancteiddrwydd di. Cynorthwya fi i rannu dy lawenydd drwy feddiannu dy sancteiddrwydd. Rwy'n gofyn yn enw Iesu. Amen.